# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ofal Lliniarol a Hosbisau, 27 Hydref 2022, 15.00-16.30

## Cynnydd wrth ddatblygu polisi cenedlaethol ar gyfer gofal lliniarol a diwedd oes yng Nghymru, rhoi sylw i effaith yr argyfwng costau byw ar hosbisau, a darparu gofal yn Gymraeg

## Cofnodion

### Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Mark Isherwood AS | Altaf Hussain AS |
| Rhun ap Iorwerth AS | |

| | |
|---|---|
| Ceridwen Hughes, Same But Different | Liz Booyse, Hosbis y Ddinas |
| Dominic Carter, Hospice UK | Trystan Pritchard, Hosbis Dewi Sant |
| Matthew Brindley, Hospice UK | Lesley Bethell, Cymru Garedig |
| Tash Wynne, Marie Curie | Grant Usmar, Hosbis y Cymoedd |
| Tracy Jones, Tŷ Hafan | Rhys Hughes, swyddfa Rhun ap Iorwerth AS |
| Emma Saysell, Gofal Hosbis Dewi Sant | Gethin Rhys, Cytûn |
| Janette Bourne, Cruse | Angharad Davies, Tŷ Gobaith |
| Grant Usmar, Hosbis y Cymoedd | George Parish Wallace, Cymdeithas Alzheimer |
| Owen Davies, Llywodraeth Cymru | Eleri Morgan, Senedd |
| Andy Goldsmith, Tŷ Gobaith | Jon Antoniazzi, Marie Curie |
| Glenn Page, Cymorth Canser Macmillan | Bethan Edwards, Marie Curie |
| Tina Ahang, Together for Short Lives | Yr Athro Chris Jones, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru |
| Dr Idris Baker, Arweinydd Clinigol Cenedlaethol, Gofal Lliniarol a Diwedd Oes | Rachel Williams, Parkinson's UK |
| Iain Mitchell, Hosbis Sant Cyndeyrn | |

### Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Peredur Owen Griffiths AS | Melanie Minty, Fforwm Gofal Cymru |
| Heledd Fychan AS | Steve Parry, Hosbis Tŷ'r Eos |

## Croeso gan y Cadeirydd, cofnodion o'r cyfarfod blaenorol a materion sy’n codi

Croesawodd Mark bawb i’r cyfarfod, yn enwedig y siaradwyr gwadd a oedd yn rhoi sylw i’r cynnydd wrth ddatblygu polisi cenedlaethol ar gyfer gofal lliniarol a diwedd oes yng Nghymru, effaith yr argyfwng costau byw ar hosbisau, ac arfer da wrth ddarparu gofal hosbis yn Gymraeg.

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol gan Tracy Jones a'u heiliwyd gan Janette Bourne a Liz Booyse.

Rhoddodd Mark y wybodaeth ddiweddaraf i’r aelodau ar y cynnydd yn erbyn camau gweithredu:

- Ysgrifennwyd at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei gwahodd hi i’r cyfarfod hwn ac yn gofyn iddi beth sy’n cael ei wneud i wella mynediad at ofal lliniarol yn ystod y cyfnod y tu allan i oriau, fel yr amlygwyd yn y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Ceridwen Hughes i’r grŵp cyn y toriad. Yn anffodus, ni atebodd y Gweinidog y cwestiynau hyn yn benodol yn ei hymateb ysgrifenedig ac nid oedd hi ar gael i ymuno â’r cyfarfod, ond gofynnodd i’r Athro Chris Jones (Dirprwy Brif Swyddog Meddygol) a Dr Idris Baker (Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Lliniarol a Diwedd Oes) fod yn bresennol ar ei rhan.
- Ysgrifennwyd at Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ynglŷn â’r un materion, ond yn anffodus methodd eu hymateb nhw fynd i’r afael â’r dystiolaeth a glywyd gan y grŵp trawsbleidiol, yn enwedig o ran mynediad at gymorth y tu allan i oriau.
- Dau gam gweithredu sydd heb eto eu cyflawni yw gofyn i Hosbisau Cymru sut y gallant gydweithio â byrddau iechyd i fynd i’r afael â’r materion yn ymwneud â’r ddarpariaeth y tu allan i oriau a godwyd gan Ceri, a gwahodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i ymuno â’r grŵp hwn i drafod sut y gellid gwella mynediad at seibiannau byr ar gyfer plant gyda chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd a’u teuluoedd.
- Bydd Matthew yn cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion cychwynnol o’r adroddiad ar ymchwiliad y grŵp i brofiadau o ofal lliniarol a diwedd oes yn y gymuned yn ystod y pandemig (i'w gyhoeddi yn fuan), er mwyn derbyn adborth.

## Gwaith sy’n parhau a gwaith sy’n codi

| Dyddiad | Camau i’w cymryd | Statws |
|---|---|---|
| 27 Hydref | Gwahodd cynrychiolydd o’r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i fynychu un o sesiynau'r grŵp trawsbleidiol yn y dyfodol drafod mynediad teuluoedd at ofal seibiant. | |
| 27 Hydref | Gofyn i Hosbisau Cymru sut y gallant gydweithio â byrddau iechyd i fynd i’r afael â’r materion yn ymwneud â’r cyfnod y tu allan i oriau. | |
| 27 Hydref | Diweddaru’r adroddiad ar ymchwiliad y grŵp trawsbleidiol a'i gyhoeddi cyn y cyfarfod nesaf. | |

| | | |
|---|---|---|
| 27 Hydref | Ymgynghori â Ceridwen Hughes ynglŷn â sut i ymateb i lythyrau gan y Gweinidog a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cynigion o gefnogaeth gan Idris Baker a Chris Jones. | |
| 27 Hydref | Bydd y grŵp trawsbleidiol yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar effaith costau byw ar hosbisau a gofal | |
| 27 Hydref | Anfon yr arolwg costau byw a hosbisau at Idris Baker a Chris Jones | |

## Diweddariad a thrafodaeth ar y cynnydd wrth ddatblygu polisi cenedlaethol ar gyfer gofal lliniarol a diwedd oes

**Dr Idris Baker, Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Lliniarol a Diwedd Oes**

Rhoddodd Idris y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am y cynnydd wrth gyflawni'r rhaglen genedlaethol ar gyfer gofal lliniarol a diwedd oes, gan bwysleisio bod y rhaglen genedlaethol yn derm cyffredinol i ddisgrifio popeth sy'n cael ei wneud i ddatblygu polisi cenedlaethol. Bydd Bwrdd y Rhaglen Genedlaethol (NPB), sydd newydd ei sefydlu ac a fydd yn cydlynu llawer o'r gwaith hwn, yn cyfarfod am y tro cyntaf fis nesaf (Tachwedd). Mae ei gylch gwaith yn cwmpasu pob oedran a chymhlethdod a'r sbectrwm cyfan o wasanaethau gofal diwedd oes, gan gynnwys y sectorau statudol a gwirfoddol, arbenigol a chyffredinol, gofal i oedolion a gofal pediatrig. Mae'r NPB hefyd yn bwriadu cynnwys, a chael ei arwain yn sylfaenol gan, brofiadau bywyd pobl, ac mae'n rhoi mecanweithiau ar waith i wneud hyn.

Mae gwaith y Rhaglen Genedlaethol wedi'i wreiddio yn egwyddorion Gofal Iechyd Ar Sail Gwerth, gyda ffocws cryf ar wella dulliau mesur o ran anghenion y boblogaeth, canlyniadau a chostau gofal lliniarol a diwedd oes. Mae dull newydd o fesur canlyniadau cleifion yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a fydd yn casglu gwybodaeth ar ganlyniadau cleifion yn well, er mwyn llywio defnydd data a darparu gwasanaethau. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud i wella asesiadau o anghenion y boblogaeth, i fynd y tu hwnt i gyfrif pennau yn unig ac i gasglu data manylach ar yr hyn sydd ei angen gan bwy, pryd a ble.

Rhoddodd Idris y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar yr adolygiad ariannu cam dau y mae'n ei arwain sy'n edrych ar fodelau darparu gofal ar draws sbectrwm llawn gofal lliniarol. Mae'r adolygiad cam dau yn adeiladu ar gam un, a oedd â ffocws llawer culach ar ariannu hosbisau. Un o heriau allweddol yr adolygiad cam dau yw ei ehangder a'r ffaith nad oes llawer o ddata ar gael i lywio argymhellion ariannu erbyn y dyddiad cau, sef Ionawr 2023. Oherwydd hyn, mae adolygiad ariannu cam tri wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf, i'w gwblhau erbyn Ionawr 2024 a'i lywio gan ddata manylach ar anghenion y boblogaeth. Mae disgwyl bellach i gam dau ganolbwyntio ar faterion yn ymwneud â gwasanaeth y tu allan i oriau.

**Yr Athro Chris Jones, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol**

Dywedodd Chris ei fod ef a chydweithwyr yn gwerthfawrogi barn y grŵp trawsbleidiol ac yn awyddus i weithio gyda'r grŵp i wella gofal lliniarol a diwedd oes yng Nghymru. Croesawodd y gwaith y mae Idris yn ei arwain i gyflawni hyn, gan ei ddisgrifio fel gwaith arloesol ac uchelgeisiol ei gwmpas. Fodd bynnag, tynnodd sylw at y ffaith y gallai'r anawsterau ôl-bandemig sy'n wynebu iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys yr argyfwng costau byw a

phwysau ariannol a phwysau ar y gweithlu, effeithio ar y gwaith hwn a bod llawer o’r prosesau sy’n ymwneud â’r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

Diolchodd **Mark Isherwood** i Idris a Chris am eu diweddariadau a gofynnodd a oedd gan unrhyw un gwestiynau.

Dywedodd **Ceridwen Hughes** nad oedd hi’n hapus gyda'r ymateb a gafodd y grŵp gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ynglŷn â darpariaeth y tu allan i oriau ac nad yw hi wedi clywed dim ganddynt ers iddi rhoi cyflwyniad i'r Bwrdd Diwedd Oes. Rhoddodd enghraifft o deulu y mae'n eu cefnogi a oedd wedi gorfod ffonio chwe gwaith cyn cyrraedd y gwasanaeth tu allan i oriau un noson, ac yna dywedwyd wrthynt am fynd i’r adran damweiniau ac achosion brys. Dywedodd fod y broblem o ran y gwasanaeth y tu allan i oriau yn ehangach na BIPBC yn unig a bod angen mynd i'r afael â’r broblem ledled Cymru.

Dywedodd **Idris Baker** ei fod yn ddrwg ganddo glywed bod y problemau hyn yn parhau a'i fod wedi siarad â chydweithwyr o fewn BIPBC am y materion y mae Ceri wedi'u codi. Cytunodd fod angen i bethau wella a dywedodd ei fod yn gobeithio y byddai argymhellion ar y ddarpariaeth y tu allan i oriau yn yr adolygiad cyllid yn helpu gyda hyn. Cynigiodd hefyd helpu Ceri ac eraill i fynd i'r afael â'r problemau hyn.

Rhoddodd **Tash Wynne** ddiweddariad i’r grŵp ar yr ymchwil y bydd Marie Curie yn ei gyhoeddi ar y ddarpariaeth y tu allan i oriau yn fuan ac a fydd yn edrych ar argymhellion yng Nghymru. Croesawodd fewnbwn gan eraill ar hyn.

Cynigodd **Chris Jones** hefyd i helpu i ddatrys y problemau a godwyd gan Ceri os na all pethau gael eu datrys drwy'r sianeli arferol.

Dywedodd **Mark Isherwood** y byddai'r grŵp trawsbleidiol yn gweithio gyda Ceri i wneud gwaith dilynol ar y materion a godwyd.

## Sbotolau ar effaith yr argyfwng costau byw ar hosbisau yng Nghymru

**Trystan Pritchard, Hosbis Dewi Sant**

Disgrifiodd Trystan sut mae’r argyfwng costau byw, ynghyd ag effaith yr oedi sylweddol rhwng atgyfeirio a thrin cleifion yn dilyn y pandemig, yn rhoi pwysau ychwanegol ar eu gwasanaethau, gan gynnwys ar ddarpariaeth gofal seibiant a gofal yn y cartref. Mae hefyd yn gwanhau gallu a gwydnwch teuluoedd i ymdopi, gan gynyddu’r pwysau ar wasanaethau hosbis.

Mae Hosbis Dewi Sant yn wynebu costau cynyddol o ran gwresogi, bwyd, a’r codiad cyflog sy’n gysylltiedig â’r Agenda ar gyfer Newid, sy’n golygu bod yn rhaid iddynt ddod o hyd i £300,000 ychwanegol y flwyddyn. Daw hyn ar adeg pan fo codi arian gan elusennau yn tangyflawni o safbwynt y gyllideb oherwydd pwysau costau byw. I roi hyn yn ei gyd-destun, daw 60-80% o incwm hosbisau Cymru o godi arian elusennol. Ynghyd â chostau cynyddol, mae hyn yn golygu bod Hosbis Dewi Sant yn wynebu effaith net o dros hanner miliwn o bunnoedd.

Dywedodd Trystan mai dyma'r sefyllfa waethaf y mae wedi'i phrofi ers deng mlynedd ac y bydd angen cymorth o'r Llywodraeth ar hosbisau i barhau i ddarparu gwasanaethau.

**Andy Goldsmith (Hosbis Plant Tŷ Gobaith):**

Dywedodd Andy ei fod yn siarad yn lle Tracy o Dŷ Hafan a thynnodd sylw at y ffaith bod eu costau ynni wedi treblu i £600,000. Mae costau staffio a recriwtio yn broblem enfawr i Dŷ Gobaith, gyda chyfraddau uchel iawn o swyddi gweigion o ran nyrsys pediatrig (cyfradd swyddi gwag 18-25%) ac mae hosbisau yn cael trafferth cystadlu â'r GIG. Disgrifiodd gynnydd i'r sylfaen costau o 25% ar gyfer hosbisau plant.

Disgrifiodd Andy 'storm berffaith' wedi'i ffurfio o gynnydd yn y galw, costau hosbis cynyddol, a gostyngiad yng ngwydnwch y teuluoedd y maent yn eu cefnogi, gyda llawer yn cael trafferth cael mynediad at wasanaethau oherwydd costau teithio ac ati.

**Liz Booyse, Hosbis y Ddinas**

Rhoddodd Liz y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am arolwg diweddar a gynhaliwyd gan Hosbisau Cymru gydag aelod-hosbisau ym mhob rhan o Gymru. Dywedodd fod hosbisau yn dal i deimlo effeithiau'r pandemig a bod yr argyfwng costau byw wedi gwaethygu hyn. Roedd y materion allweddol a godwyd gan aelodau yn cynnwys:

- Cynnydd enfawr mewn costau ynni
- Heriau sylweddol o ran recriwtio staff
- Cynnydd cyffredinol yn yr holl gostau rhedeg
- Effaith ar gynhyrchu incwm
- Mae llawer o hosbisau wedi rhoi'r gorau i ddatblygu gwasanaethau ac maent bellach yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau craidd
- Nid yw llawer o hosbisau yn blaenoriaethu gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau

Dywedodd Liz mai cam cyntaf da i helpu hosbisau drwy'r cyfnod anodd hwn fyddai eu cefnogi gyda chodiad cyflog yr Agenda ar gyfer Newid ac o bosibl rhywfaint o gymorth wedi'i dargedu drwy'r adolygiad cyllid nesaf.

Argymhellodd **Mark Isherwood** y dylai'r grŵp trawsbleidiol ysgrifennu at Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn amlygu'r pryderon a godwyd a'r opsiynau i'r Llywodraeth helpu.

Dywedodd **Idris Baker** ei fod yn barod i helpu os gallai, a gofynnodd i Trystan, Andy a Liz anfon gwybodaeth berthnasol ato.

## Cynnydd o ran hosbis plant Tŷ Gobaith yn darparu gofal yn y Gymraeg, yn dilyn gwaith gan y diweddar Aled Roberts (cyn Gomisiynydd y Gymraeg)

**Angharad Davies, Pennaeth Gofal Hosbis Plant Tŷ Gobaith**

Rhoddodd Angharad gyflwyniad i'r grŵp trawsbleidiol ar ddarpariaeth cyfwng Cymraeg Tŷ Gobaith, gan ddisgrifio'r gwasanaethau gwych y maent yn eu cynnig yn Gymraeg drwy eu hosbis yng Ngogledd Cymru. Amlinellodd bum agwedd allweddol ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg:

1. Rydym yn deall pa mor bwysig yw derbyn gofal yn eich iaith gyntaf – dyna pam rydym yn gofyn i deuluoedd beth yw eu dewis iaith ac yn ymdrechu i ddarparu nyrsys a gofalwyr sy'n siarad Cymraeg i'r teuluoedd hynny sy'n gofyn amdanynt.
2. Mae gennym wefan Gymraeg gyda botwm dewis iaith
3. Rydym yn falch iawn bod gennym nifer o staff gyda sgiliau iaith Gymraeg ac rydym yn annog staff i ddangos i'r cyhoedd eu bod yn siarad Cymraeg gydag adnoddau Iaith Gwaith
4. Mae pob aelod o staff yn ateb y ffôn yn ddwyieithog, ac os nad yw'r aelod o staff yn siarad Cymraeg, maent yn cynnig trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg pan fo hynny'n bosibl.
5. Rydym yn darparu cyfathrebiad Cymraeg i'n cefnogwyr pan fo'n bosibl. Gofynnwch am gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg i dderbyn llythyrau diolch, cylchlythyrau, posteri, cyflwyniadau a chymorth codi arian yn Gymraeg

Rhannodd Angharad fideo gydag aelodau hefyd: Cynnig Cymraeg | Hosbisau Plant Tŷ Gobaith

Diolchodd **Mark Isherwood** i Angharad a chanmol Tŷ Gobaith ar ei waith anhygoel. Gofynnodd sut y gellid cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn hosbisau'n well.

Dywedodd **Angharad** mai'r ffordd orau o hybu defnydd y Gymraeg oedd, yn gyntaf, annog a chefnogi siaradwyr Cymraeg presennol sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli i'r hosbis a chreu amgylchedd cadarnhaol i'r iaith gael ei defnyddio'n fwy aml.

## Diweddariad ar yr adroddiad ar ymchwiliad y grŵp trawsbleidiol i brofiadau o ofal lliniarol a diwedd oes yn y gymuned yn ystod y pandemig

**Matthew Brindley, Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol**

Rhoddodd Matthew ddiweddariad byr i aelodau'r grŵp ar y canfyddiadau allweddol cychwynnol a'r argymhellion o adroddiad yr ymchwiliad.

Y canfyddiadau allweddol:

1. Chwaraeodd gofal lliniarol a diwedd oes rôl hanfodol yn yr ymateb i'r pandemig a gweithiodd llawer o unigolion yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol yn ddiflino, wrth wynebu risg bersonol sylweddol, i gefnogi pobl ar ddiwedd eu hoes.
2. Fodd bynnag, nid oeddem wedi paratoi'n dda ar gyfer y cynnydd enfawr yn y galw am ofal lliniarol a diwedd oes yn y gymuned.

3. Cafodd llawer o bobl anawsterau wrth geisio cael mynediad at ofal diwedd oes yn y cartref ac mewn cartrefi gofal, gan arwain at brofiadau torcalonnus.
4. Roedd cyfyngiadau ymweld mewn cartrefi gofal a lleoliadau eraill yn achosi poen a dioddefaint difesur.
5. Bu chwyldro o ran cydweithredu, arloesi a gweithio creadigol ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Argymhellion:

- Dysgu o'r pandemig ac adeiladu ar arfer da
- Trosglwyddo capasiti i mewn i'r gymuned
- Gwneud gofal lliniarol a diwedd oes yn fater i bawb

Tynnodd **Mark Isherwood** sylw at yr angen i'r adroddiad rhoi ffocws ar yr effaith ar weithwyr gofal yn ystod y pandemig, yn seiliedig ar y dystiolaeth a glywyd gan Fforwm Gofal Cymru, staff cartrefi gofal ac eraill a fu'n rhan o'r ymchwiliad.

Croesawodd **Idris Baker** y ffocws ar gynllunio ar gyfer pandemigau yn y dyfodol a'r rôl hollbwysig a chwaraeodd gofal lliniarol a diwedd oes yn yr ymateb.

## Materion parhaus/diweddariadau

Gofynnodd **Mark Isherwood** i'r aelodau a oedd ganddynt unrhyw flaenoriaethau yr oeddent am i'r grŵp ganolbwyntio arnynt mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Awgrymodd Mark y dylai'r grŵp ystyried arolygu taliadau cymorth profedigaeth a'r berthynas rhwng hosbisau a byrddau iechyd.

Awgrymodd **Andy Goldsmith** y dylai'r grŵp edrych ar y ddarpariaeth seibiant byr gan awdurdodau lleol ar gyfer plant â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd.

Gofynnodd Andy hefyd a allent barhau i gyfrannu at yr adolygiad ariannu. Dywedodd Idris y gallent ac y byddent yn hapus i gael sgwrs ar hyn.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf yw 20 Ionawr 2023 am 3pm ar Zoom**